

Cipolwg ar y strategaeth 2026 - 2030

Ein diben



Ein statws:

Fel corff annibynnol, a sefydlwyd drwy [ddeddfwriaeth*](#), mae'n ofynnol arnom i ddarparu fframwaith ar gyfer tâl a chymorth i Aelodau sy'n helpu i hwyluso gwaith y Senedd, gan alluogi cynrychiolaeth ddemocratiaeth effeithiol a sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru.



Yr hyn a wnawn:

Rydym yn pennu faint mae Aelodau o'r Senedd yn cael eu talu, i adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl ganddynt fel cynrychiolwyr etholedig.

Rydym yn pennu'r costau busnes maen nhw'n gallu eu hawlio, gan gynnwys rhedeg eu swyddfeydd a chyflogi eu staff



Rydym yn gweithio gydag eraill:

Rydym yn gweithio gyda Chomisiwn y Senedd a Chomisiynydd Safonau'r Senedd i sicrhau bod ein penderfyniadau'n cefnogi Senedd lwyddiannus.

Ein hegwyddorion arweiniol



Gwerth am arian i bobl Cymru:

Bydd ein penderfyniadau'n adlewyrchu amgylchiadau economaidd ac ariannol Cymru, gan gynnwys yng nghyd-destun enillion pobl.



Llwyddiant:

Bydd ein penderfyniadau'n cefnogi llwyddiant hirdymor y Senedd, gan alluogi'r Aelodau i gyflawni eu rôl yn y Senedd a chynrychioli eu hetholwyr yn effeithiol.



Y dyfodol:

Bydd ein penderfyniadau yn dryloyw ac yn gynaliadwy, yn hyrwyddo uniondeb ac yn lleihau'r rhwystrau ariannol i ymgeiswyr posibl sefyll mewn etholiadau.

Ein nodau



Darparu'r fframwaith cyllid a chymorth i Aelodau gyflawni eu rôl yn y Senedd yn effeithiol a chynrychioli eu hetholwyr.



Sicrhau bod y Penderfyniad yn parhau i fod yn addas at y diben, ei fod yn adlewyrchu newidiadau mewn ffyrdd o weithio ac arferion gweinyddol, a'i fod wedi'i osod yng nghyd-destun economaidd Cymru.

Ein hamcanion strategol



Ymgysylltu:

Gwella'n rhagweithiol ac yn barhaus sut rydym yn cynnwys rhanddeiliaid ac yn ymgysylltu â nhw cyn ac wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â'r rhai yr effeithir arnynt, cydweithio â'r rhai sy'n gweithredu'r Penderfyniad, ac egluro penderfyniadau'n glir i'r Aelodau a'r cyhoedd.



Adolygu:

Dadansoddi data a thystiolaeth ynghylch sut mae penderfyniadau'r Bwrdd yn gweithredu yn ymarferol, gan sicrhau bod y Penderfyniad yn glir, yn syml, yn addas at y diben, ac yn gweithio fel y bwriadwyd. Asesu a oes angen newid penderfyniadau neu eu cyfleu'n wahanol.



Addasu:

Byddwn yn addasu i newidiadau ym musnes y Senedd a ffyrdd o weithio, gan sicrhau bod y Penderfyniad yn cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant, yn hwyluso arloesedd a moderneiddio, ac yn adlewyrchu rôl esblygol y Senedd a'i Haelodau.



Cynnal:

Sicrhau bod penderfyniadau'n sefyll prawf amser, yn hyrwyddo atebolrwydd, yn parhau i fod yn gynaliadwy'n ariannol, ac yn cyfrannu tuag at Senedd lwyddiannus.